

Tasg 1

A yw hi'n werth gwario arian ar opera?

Trafod

1. Beth yw prif ddadl Ben Morris yn erbyn rhoi arian cyhoeddus i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru?

Ydych chi'n cydymdeimlo â'r ddadl hon?

Nodwch yr enghreifftiau y mae'n eu nodi yn y meysydd hyn:

- Hamdden
- Addysg
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Iechyd a gofal

Ydych chi wedi gweld newid i'r gwasanaethau yn eich ardal chi?

2. Beth yw 'y crach'?
Ai dim ond crach sy'n byw yn ardal Caerdydd?
Ai rhywbeth i'r crach yw opera? Ydych chi wedi gweld opera, neu'n adnabod rhywun sy'n hoff o opera?

3. Mae gan Marilyn Hughes sawl dadl o blaid rhoi arian cyhoeddus i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Chwiliwch am y dadleuon o ran:

- swyddi
- cynhyrchu incwm i fusnesau eraill
- cynnig adloniant i bobl y tu allan i Gaerdydd hefyd
- pris tocynnau

Beth yw eich barn am y dadleuon hyn?

4. Dadl olaf Marian Hughes yw y byddwn ni'n 'troi'n ôl yn anifeiliaid' os nad ydyn ni'n cefnogi sefydliadau celfyddydol fel y cwmni opera.

Ar ôl cytuno ar beth yw 'sefydliadau celfyddydol' neu'r 'celfyddydau', trafodwch y gosodiad hwn: **Heb y celfyddydau, byddai pobl yn troi'n ôl yn anifeiliaid.**

5. Byddai pawb yn cytuno bod angen inni wario arian ar bethau fel iechyd a gofal, addysg, trafnidiaeth. Ond, os yw arian yn brin, ar beth arall y dylen ni wario?

Dyma rai awgrymiadau, ond gallwch ychwanegu atynt:

- Lleoedd chwarae i blant
- Canolfannau dydd i'r henoed
- Llyfrgelloedd
- Oriolau celf
- Clybiau ieuenctid
- Pyllau nofio
- Canolfannau hamdden
- Parciau cyhoeddus
- Neuaddau i gynnal dramâu a chyngherddau
- Arian (nawdd) i eisteddfodau lleol a chenedlaethol, cwmnïau drama a dawns, artistiaid.

Penderfynwch ar eich blaenoriaethau fel dosbarth.

6. Pa ffeithiau yn y llythyrau sydd wedi eich synnu?
7. Mae Marilyn Hughes yn sôn am 'pethau gorau bywyd'. Beth yw 'pethau gorau bywyd' i chi?